

# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

15 Mehefin 1999

15 June 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies the Member has declared an interest.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

### Air Pollution

**Q6 Peter Black:** In the light of the recent report by Friends of the Earth, highlighting unacceptable levels of air pollution from south Wales factories, what is the First Secretary doing to work with the Environment Agency Wales to draw up an effective action plan to reduce harmful airborne emissions? (OAQ99JS)

**The First Secretary:** It was the Environment Agency's Pollution Inventory which formed the basis for Friends of the Earth's report. The Agency will be taking full account of its findings in regulating emissions from sites which are subject to Integrated Pollution Control. These authorisations are reviewed at least every four years.

In reviewing authorisations, the Agency also takes account of the UK National Air Quality Strategy, which set objectives to be met by 2005 for the eight pollutants which are considered to have the greatest impact on health. The UK Government is currently revising the Strategy in close consultation with the Agency, with the aim of tightening the objectives where this is feasible and justified.

### Llygredd Aer

**C6 Peter Black:** Yng ngoleuni'r adroddiad diweddar gan Gyfeillion y Ddaear sydd yn amlygu lefelau annerbyniol o lygredd aer o ffatrioedd de Cymru, beth mae'r Prif Ysgrifennydd yn ei wneud er mwyn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i lunio cynllun gweithredu effeithiol i leihau allyriannau niweidiol yn yr awyr? (OAQ99JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cafodd adroddiad Cyfeillion y Ddaear ei seilio ar Restr Llygredd Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn a ganfuwyd am reoleiddio allyriannau o safleoedd sydd yn ddarostyngedig i Reolaeth Llygredd Integredig. Mae'r lefelau a ganiateir yn cael eu hadolygu o leiaf bob pedair blynedd.

Wrth adolygu pob caniatâd, mae'r Asiantaeth hefyd yn ystyried Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol y DU, sydd yn gosod amcanion i'w cyflawni erbyn 2005 ar gyfer wyth o'r llygrwyr sydd yn cael eu hystyried fel y rhai sydd yn effeithio fwyaf ar iechyd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn adolygu'r Strategaeth gan gydweithio'n agos gyda'r Asiantaeth er mwyn tynhau'r amcanion lle bo hynny'n ymarferol ac y gellir ei gyfiawnhau.

### Aberdare County Court

**Q7 Christine Chapman:** Will the First Secretary follow the lead set by Ann Clwyd MP and Rhondda Cynon Taff County Borough Council and support the move to keep open Aberdare county court which is threatened with closure? (OAQ128JS)

**The First Secretary:** I understand that the public consultation process on this issue has been extended to the end of June and the Lord Chancellor will then make a decision whether to close Aberdare County Court. I am sure that the Lord Chancellor will take the views of local people, local business and members of the legal profession in the area fully into account when making that decision.

### **Llys Sirol Aberdâr**

**C7 Christine Chapman:** A wna'r Prif Ysgrifennydd ddilyn arweiniad Ann Clwyd AS a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chefnogi'r symudiad i gadw llys sirol Aberdâr yn agored er gwaethaf y bygythiad i'w gau? (OAQ128JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Deallaf fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn wedi cael ei ymestyn hyd at ddiwedd mis Mehefin ac y bydd yr Arglwydd Ganghellor yn penderfynu wedyn a fydd Llys Sirol Aberdâr yn cau ai peidio. Yr wyf yn siwr y bydd yr Arglwydd Ganghellor yn rhoi ystyriaeth lawn i farn y bobl leol, busnesau lleol ac aelodau'r proffesiwn cyfreithiol yn yr ardal wrth ddod i benderfyniad.

### **Public Match Funding**

**Q8 Michael German:** What is the First Secretary's estimate of the public match funding requirement for the period 1/1/00 to 31/12/00 and 1/1/01 to 21/12/01 for Objective 1, 2 and 3 in Wales? (OAQ101JS)

**The First Secretary:** Following our success in winning Objective 1 status for a large part of Wales, I am now working to secure the best deal on Objectives 2 and 3. Until the level of all the structural funds resources for Wales have been determined for these three Objectives it is impossible to predict accurately either the amount or incidence of the match funding required.

### **Cyllid Cyfatebol Cyhoeddus**

**C8 Michael German:** Beth yw amcangyfrif y Prif Ysgrifennydd o'r cyllid cyfatebol cyhoeddus y bydd ei angen ar gyfer y cyfnodau 1/1/00 i 31/12/00 a 1/1/01 i 31/12/01 ar gyfer Amcanion 1, 2 a 3 yng Nghymru? (OAQ101JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn sgîl ein llwyddiant yn ennill statws Amcan 1 i ardal eang o Gymru, yr wyf yn awr yn gweithio i sicrhau'r telerau gorau ar gyfer Amcanion 2 a 3. Nes y bydd lefel adnoddau yr holl gronfeydd strwythurol ar gyfer Cymru wedi eu penderfynu yng nghyswllt y tri Amcan hwn, mae'n amhosib rhagweld yn union faint o gyllid cyfatebol a fydd yn ofynnol na phryd y bydd ei angen.

### **Right to Roam**

**Q9 Nick Bourne:** Is the First Secretary aware of the concerns of farmers and people in rural Wales of proposals to open at least 50 per cent of rural Wales to enforce access for walkers through a statutory right to roam? (OAQ139AG)

**The First Secretary:** The Government consulted a wide range of bodies and organisations, including farming and land-owning interests, before announcing its intention to legislate to secure greater access to the open countryside. More than 2,000 responses were received. The majority supported a new statutory right of access. Legislation is a matter for Parliament, but it is not intended that the new right will apply to cultivated land, and landowners will have the discretion to close land to restrict access for a number of days a year.

## Hawl i Grwydro

**C9 Nick Bourne:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol o bryderon ffermwyr a phobl yng nghefn gwlad Cymru ynghylch cynigion i agor o leiaf 50 y cant o'r Gymru wledig i orfodi mynediad i gerddwyr drwy gyfrwng hawl statudol i grwydro? (OAQ139AG)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori gydag amrywiaeth eang o gyrff a sefydliadau, gan gynnwys pobl berthnasol o fyd amaeth a thirfeddianwyr, cyn cyhoeddi'r bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i ehangu hawl pobl i ddefnyddio cefn gwlad. Cafwyd dros 2,000 o ymatebion. Yr oedd y rhan fwyaf yn cefnogi'r hawl mynediad statudol newydd. Mater i'r Senedd yw deddfwriaeth, ond ni fwriedir i'r hawl newydd gynnwys tir âr, a bydd gan dirfeddianwyr hawl, fel y dymunant, i amgáu eu tir er mwyn cyfyngu ar yr hawl mynediad am rai dyddiau'r flwyddyn.

## Assembly First Secretary

**Q10 Nick Bourne:** At what date does the First Secretary anticipate devoting full-time executive responsibility to his role as Assembly First Secretary? (OAQ141VB)

**The First Secretary:** As I have previously made clear, I will stand down as Secretary of State for Wales at the appropriate time, when I have assisted in the transition from the Welsh Office to the Assembly.

## Prif Ysgrifennydd y Cynulliad

**C10 Nick Bourne:** Ar ba ddyddiad y mae'r Prif Ysgrifennydd yn rhagweld y bydd ef yn neilltuo cyfrifoldeb gweithredol amser llawn i'w rôl fel Prif Ysgrifennydd y Cynulliad? (OAQ141VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel yr eglurais o'r blaen, byddaf yn rhoi'r gorau i'm swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar yr adeg briodol, ar ôl i mi hwyluso'r trosglwyddiad o'r Swyddfa Gymreig i'r Cynulliad.

## Road Links

**Q11 Janet Ryder:** Does the First Secretary intend to take action to improve the A470 and other north-south road links in Wales, and when does he intend to take this action? (OAQ148JS)

**The First Secretary:** We intend to bring forward significant improvements in north-south public transport services complemented by steady and relatively small-scale improvements to the trunk road network linking north and south Wales.

The promised corridor study encompassing the A470 from Brecon to Llandudno has commenced, and extends beyond the A470 to include the A483 and A487 in north Wales. We anticipate work on the study should be complete within 12 months.

The report on the review of the Welsh trunk road programme 'Driving Wales Forward' published in July 1998 recognised the importance of the A470, A483 and A487 trunk roads in providing links between north and south Wales by their inclusion in the new core network of nationally important strategic routes.

### Cysylltiadau Ffyrdd

**C11 Janet Ryder:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gwneud rhywbeth i wella'r A470 a ffyrdd eraill rhwng y de a'r gogledd, a phryd y bwriada wneud y gwelliannau hynny? (OAQ148JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr ydym yn bwriadu cyflwyno gwelliannau sylweddol i wasanaethau cludiant cyhoeddus rhwng y gogledd a'r de ynghyd â gwelliannau cyson a chymharol fân i'r rhwydwaith cefnffyrdd sydd yn cysylltu de a gogledd Cymru.

Mae'r astudiaeth a addawyd ar y coridor sydd yn cynnwys yr A470 o Aberhonddu i Landudno eisoes wedi dechrau, ac mae'n ymestyn y tu hwnt i'r A470 i gynnwys yr A483 a'r A487 yng ngogledd Cymru. Yr ydym yn rhagweld y bydd y gwaith ar yr astudiaeth wedi ei gyflawni o fewn 12 mis.

Mae'r adroddiad ar yr adolygiad o raglen cefnffyrdd Cymru 'Gyrru Cymru yn ei Blaen' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1998 yn cydnabod pwysigrwydd cefnffyrdd yr A470, A483 a'r A487 fel cyswllt rhwng gogledd a de Cymru drwy eu cynnwys yn y rhwydwaith craidd newydd o lwybrau strategol cenedlaethol pwysig.

### Rail Link

**Q12 Janet Ryder:** What representations has the First Secretary made to the railway regulators and companies concerning the introduction of a direct north-south rail link in Wales? (OAQ149JS)

**The First Secretary:** In the Welsh Office, Peter Hain currently has responsibility for transport issues in Wales, and he has made representations on my behalf to the railway regulators, train operators, local authorities and Railtrack with the aim of enhancing passenger train services between north and south Wales.

The National Assembly will be able to make its views known in order to influence the train operators, Railtrack and the regulatory bodies. In addition, the planned Strategic Rail Authority will include representation from Wales, and will consult the National Assembly about the exercise of its functions as they relate to the Assembly's interests.

### Cyswllt Rheilffordd

**C12 Janet Ryder:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cysylltu â rheoleiddwyr a chwmnïau'r rheilffyrdd ynghylch darparu cyswllt uniongyrchol rhwng y de a'r gogledd? (OAQ149JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn y Swyddfa Gymreig, Peter Hain sydd yn gyfrifol ar hyn o bryd am gludiant yng Nghymru ac mae wedi bod yn trafod ar fy rhan gyda rheoleiddwyr y rheilffyrdd, cwmnïau trenau, awdurdodau lleol a Railtrack gyda'r nod o wella gwasanaethau trenau i deithwyr rhwng gogledd a de Cymru. Gall y Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno ei safbwyntiau er mwyn dylanwadu ar y cwmnïau trenau, Railtrack a'r cyrff rheoleiddio. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Rheilffordd Strategol sydd ar y gweill yn cynnwys cynrychiolaeth o Gymru a bydd yn ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'i swyddogaethau fel y maent yn berthnasol i fuddiannau'r Cynulliad.